SHERMAN THEATR • THEATRE

tilt
tilt-theatre.co.uk



Cyd-gynhyrchiad rhwng Theatr y Sherman a Tilt

BALLOON GIRL

Ysgrifennwyd a chyfarwyddwyd gan Hannah McPake

Pecyn Adnoddau i Ysgolion

Am y ddrama

Wedi'i ysgrifennu gan Hannah McPake, mae Balloon Girl yn gynhyrchiad ar y cyd rhwng Theatr y Sherman a Tilt, wedi'i ysbrydoli gan stori wir o Gaerdydd am ferch 14 oed o'r enw Louisa Maud Evans 130 mlynedd yn ôl.

Mae'r ddrama newydd wyllt a dychmygus hon yn dathlu gwaddol a dewrder merch wrthryfelgar a ddaeth yn arwres werin, a'r ddinas a gasglodd ei hadnoddau i'w hanrhydeddu. Yn cwmpasu 2,000 o flynyddoedd o hanes Cymru, o oresgynwyr Rhufeinig ac ysbeilwyr Llychlynnaidd i drigolion Fictoraidd Caerdydd a thu hwnt, bydd y ddrama hefyd yn taflu goleuni ar allu dynoliaeth i gyflawni campau rhyfeddol, yn aml ar draul pobl gyffredin.

Dywedodd Hannah McPake: "Roedd y newidiadau gwleidyddol yn y 1890au – o'r bleidlais i fenywod i ymwybyddiaeth o faterion LHDTC+, o hawliau gweithwyr i gyfreithiau llafur plant – yn seismig. Ac fel y mae hanes wedi dangos dro ar ôl tro, daeth y newidiadau hynny o effeithiau niweidiol rhai o'n cyflawniadau diwydiannol, technolegol a gwyddonol mwyaf. Rwy'n gobeithio y bydd Balloon Girl yn dangos i gynulleidfaoedd hen ac ifanc sut mae hanes yn ailadrodd, a sut, ochr yn ochr â'n gallu diderfyn i ddysgu a darganfod, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn mynd â phawb gyda ni."

Y Balloon Girl go iawn ac Arddangosfa Fawreddog Caerdydd

Gallwch wylio rhaglen ddogfen fer am Louisa Maud Evans ac Arddangosfa Celfyddyd Gain, Ddiwydiannol a Morwrol Caerdydd 1896 yma. Mae'r ffilm hon, sy'n para tua 6 munud ac wedi'i chreu gan Chris Lloyd, yn rhoi cyd-destun defnyddiol i hanes a chymeriadau Balloon Girl.



Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth Heritage Fund

Gwnaed Prosiect Ysgolion Balloon Girl a'r adnodd dysgu hwn yn bosib diolch i grant gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Mae Balloon Girl yn gyd-gynhyrchiad rhwng Theatr y Sherman a Tilt, gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru.


GWEITHGAREDD 1

GWYLIO COFIO

Gwyliwch y rhaglen ddogfen fer am Louisa Maud Evans ac Arddangosfa Celfyddyd Gain, Ddiwydiannol a Morwrol Caerdydd 1896. Y rhan hon o hanes Caerdydd oedd yr ysbrydoliaeth ar gyfer Balloon Girl.



Ar ôl gwylio'r ffilm, rhowch y digwyddiadau canlynol o stori bywyd Louisa yn y drefn gywir, o'r dechrau i'r diwedd. Efallai yr hoffech dorri'r swigod allan, eu haildrefnu, a chreu llinell amser o hanes Louisa Maud Evans.



Ar yr 21ain o Orffennaf 1896, mae miloedd o bobl yn ymgynnull i wylio Mademoiselle Albertina yn codi i'r awyr mewn balŵn.

Caiff Deddf Perfformiadau Peryglus 1897 ei phasio yn y Senedd yn Llundain, gan newid y gyfraith i wahardd plant rhag perfformio gweithredoedd peryglus at ddibenion adloniant.

Mae'r cwest yn dod i'r casgliad bod marwolaeth Louisa yn "ddamweiniol", ond caiff Auguste Eugene Gaudron ei feirniadu am ganiatáu i berson mor ifanc a dibrofiad godi i'r awyr yn ei falŵn.

Am ddiwrnodau, mae papurau newydd ledled y wlad yn adrodd am "Young Balloon Girl Lost at Sea".

Mae pobl Caerdydd yn codi arian ar gyfer angladd a chofeb Louisa.

Mae Arddangosfa Celfyddyd Gain, Ddiwydiannol a Morwrol Caerdydd yn agor ym Mharc Cathays ar yr 2il o Fai 1896.

Ar yr 11eg o Orffennaf 1896, mae Louisa yn gadael ei swydd yn Syrcas Hancock ac yn teithio i Gaerdydd.

Caiff corff Louisa ei gludo i Eglwys y Santes Fair yn Nash a chynhelir cwest yn y dafarn gyferbyn.

Mae torfeydd yn gwylio'n bryderus wrth i wyntoedd cryfion wthio'r balŵn tuag at ddociau Caerdydd.

Ganwyd Louisa Maud Evans ym Mryste ar y 6ed o Ragfyr 1881.

Claddwyd Louisa Maud Evans ym Mynwent Cathays ar y 29ain o Orffennaf 1896.

Mae'r balwnydd enwog Auguste Eugene Gaudron yn cyflogi Louisa i berfformio hediad balŵn yn Arddangosfa Caerdydd o dan yr enw 'Mademoiselle Albertina'.

Mae Mademoiselle Albertina yn neidio o'r balŵn, ond mae ei pharasiwt yn disgyn ym Môr Hafren, lle mae hi'n diflannu.

Ar y 24ain o Orffennaf 1896, mae Mary Waggett, sy'n bymtheg oed, yn dod o hyd i gorff menyw ifanc a olchwyd i'r lan yn Nash Point, ger Casnewydd.


GWEITHGAREDD 2

DYLUNIO
ARLUNIO
DYCHMYGU

Digwyddodd yr helyntion hanesyddol a ysbrydolodd Balloon Girl yn ystod Arddangosfa Celfyddyd Gain, Ddiwydiannol a Morwrol Caerdydd ym 1896. Digwyddiad mawr oedd hwn a gynhaliwyd ym Mharc Cathays rhwng mis Mai a mis Tachwedd y flwyddyn honno. Wedi'i hymweld gan bron i filiwn o bobl, fe chafodd ei chynllunio i ddathlu Caerdydd fel canolfan ddiwylliannol a diwydiannol bwysig, gydag arddangosfeydd ac atyniadau arloesol a gynlluniwyd i addysgu a diddanu.

Ymhlith yr atyniadau yn Arddangosfa Caerdydd roedd: model o Gaerdydd yn ystod cyfnod y Tuduriaid; atgynhyrchiad o byllau glo ac aur; arddangosfeydd o longau a pheiriannau diwydiannol; neuadd gyngherddau; orielau celf; copi maint llawn o fan geni Shakespeare; marchnad Indiaidd; ffair Gymreig yn cynnwys drysfa o ddrychau, siglen bwganod, rheilffordd grog, carwsél; jyngl gyda llewod, teigrod a chrocodeiliaid; rheilffordd drydan; stiwdio ffotograffiaeth; a llyn a oedd yn gartref i sioe ddŵr ysblennydd o'r enw 'Santiago'.

Isod mae map o safle Arddangosfa Celfyddyd Gain, Ddiwydiannol a Morwrol Caerdydd:



Dyluniwch Arddangosfa Fawreddog i Gaerdydd heddiw. Beth fyddai'n cael ei ddathlu ynddi, a beth fyddai ymwelwyr yn gweld a gwneud yno?

Beth fydd enw eich arddangosfa?

Beth yw ei phrif thema?

Ble yng Nghaerdydd y caiff popeth ei leoli?

Pa arddangosfeydd, perfformiadau ac atyniadau fydd yn cael eu cynnwys?

Gallwch gynnwys syniadau sy'n ymwneud â:

Celfyddyd a diwylliant
Gwyddoniaeth a thechnoleg
Dyfeisio ac arloesi
Diwydiant
Hanes a threftadaeth
Iaith a thraddodiad
Perfformio a'r cyfryngau

Crëwyd Arddangosfa Caerdydd ym 1896 i addysgu a diddanu ymwelwyr wrth ddathlu cyflawniadau a syniadau'r cyfnod. Beth fyddai Arddangosfa Fawreddog yn ei ddweud am Gaerdydd heddiw?

Dewiswch eich gweithgaredd:

Creu map o'r arddangosfa

Dyluniwch a labelwch fap sy'n dangos ble gall ymwelwyr ddod o hyd i'ch arddangosfeydd a'ch atyniadau. Ychwanegwch ddisgrifiad byr o bob un.

Dylunio poster ar gyfer yr arddangosfa

Crëwch boster sy'n hysbysebu eich Arddangosfa Fawreddog. Cofiwch gynnwys yr enw, y lleoliad, y dyddiad a rhai o'r prif atyniadau.



GWEITHGAREDD 3

DARLLEN ARLUNIO

Mae Balloon Girl wedi'i lleoli ym 1896 ar ddiwedd Oes Fictoria. Ar y pryd, roedd camerâu a ffotograffiaeth yn llai cyffredin nag y maent heddiw. O ganlyniad, roedd papurau newydd yn aml yn gofyn i artistiaid dynnu lluniau (artist's impressions) er mwyn rhoi syniad gweledol o'r stori i ddarllenwyr.

Gan ddefnyddio'r disgrifiad Saesneg isod o'r 21ain o Orffennaf 1896, darluniwch lun o Louisa, 14 oed, fel y gallai fod wedi edrych ar y diwrnod aeth i fyny yn y balŵn. Bydd angen i chi ddefnyddio eich dychymyg i lenwi'r bylchau!

Bydd angen papur a phensiliau arnoch. Sgwawc!



> "In the presence of a big crowd, she took her place in the balloon. She was dressed in a sailor costume, with hat, blouse and knickerbockers. Looking very young and diminutive, with bright blue eyes, she seemed cheery and confident."

BETH AM "DIMINUTIVE"?

Defnyddiwch eiriadur i gael gwybod!

BETH YN Y BYD YW "KNICKERBOCKERS"?

Trowsus byr, llac ydynt sy'n ffitio'n dynn o dan y pen-glin.

GWEITHGAREDD 4

PERFFORMIO
SYMUD
BYRFYFYRIO

Roedd hediad balŵn Louisa Maud Evans, yn perfformio dan yr enw Mademoiselle Albertina, yn ddigwyddiad poblogaidd yn ystod Arddangosfa Caerdydd ym 1896. Daeth cannoedd, os nad miloedd, o bobl at ei gilydd i wylio'r ferch ifanc hon yn codi i'r awyr mewn balŵn.

Gan ddefnyddio'r sgript ar y dudalen nesaf fel man cychwyn, ynghyd â'r awgrymiadau ar y dudalen ganlynol, dewch â'r foment gyffrous hon o hanes Caerdydd yn fyw yn eich ystafell ddosbarth.



Dyma eich Gohebydd, gydag adroddiad arbennig o'r trac beicio yn Arddangosfa Celfyddyd Gain, Ddiwydiannol a Morwrol Caerdydd. Mae hi bron yn hanner awr wedi saith ar nos Fawrth, yr unfed ar hugain o Orffennaf. Rwy'n edrych allan ar dorf enfawr o bobl, oll wedi ymgynnull i ddisgwyl sioe ysblennydd.

(BLOEDDIO / CYMERADWYAETH)

A dyma hi! Y dirgel Mademoiselle Albertina yn ymddangos o flaen y dorf am y tro cyntaf. Mae'r gwynt wedi codi nawr, wrth i filoedd o ddynion, gwragedd a phlant wthio er mwyn cael cipolwg ar y balwnwraig. A gallaf gyhoeddi ei bod hi wedi gwisgo fel morwr. Ie, morwr! Gyda het, blows a throwsus byr.

(DISTAWRWYDD)

Mae'r dorf yn tawelu'n sydyn wrth i'r enwog Auguste Eugene Gaudron dywys Mademoiselle Albertina at y balŵn mawr sy'n aros. Mae hi'n cymryd ei lle. Ai nerfusrwydd sydd ar wyneb y ferch ifanc, neu ddiniweidrwydd plentyn?

(EILIAD O DENSIWN)

[LOUISA: "Rhyddhewch y balŵn!"]

(BLOEDDIO / CYMERADWYAETH ENFAWR)

Ac i ffwrdd â hi! I fyny, fyny fry! Y balŵn yn codi i'r awyr dros Gaerdydd. Gwrandewch ar y dorf! Maent wrth eu bodd yn gwylio'r digwyddiad cyffrous hwn.

Yn uwch ac uwch yr aiff Mademoiselle Albertina... dros y simneiau... dros y ffatrïoedd... yn cael ei chario'n gyflym gan y gwynt cryf.

Wrth i'r balŵn barhau i godi, mae'n edrych yn llai ac yn llai o'r ddaear. Nawr, maint pêl-droed... nawr, pêl golff... nawr, yr atalnod llawn leiaf wrth iddi ddiflannu'n llwyr o'r golwg...

1. LLUNIAU LLONYDD MEWN GRŴP

Mewn grwpiau, cymerwch linell neu ran o'r sgript a chreu llun llonydd neu 'tableau' o'r foment honno.

Yna, datblygwch hyn yn gyfres o dri llun llonydd sy'n dangos dilyniant o ddigwyddiadau.

2. LLUN LLONYDD FEL DOSBARTH

Dechreuwch lun llonydd gydag un person, yna gadewch i bob disgybl ychwanegu ei hun at y llun nes bod y dosbarth cyfan yn rhan ohoni.

3. SEINWEDD (SOUNDSCAPE)

Mewn grwpiau neu fel dosbarth, rhowch fywyd i synau'r sgript, gan arbrofi gydag amrywiaeth a lefelau'r sain.

Yna, castiwch rywun fel y Gohebydd i ddarllen y testun ochr yn ochr â'ch seinwedd (efallai y gallwch rannu'r llinellau a chael nifer o ohebwyr).

4. PERFFORMIAD

Nawr eich bod wedi creu sain yr olygfa, dewch â hi'n fyw yn gorfforol gan ddefnyddio eich lluniau llonydd fel ysbrydoliaeth.

Ystyriwch eich symudiad, yn unigol ac fel grŵp, yn ogystal ag arbrofi gyda chyflymder, uchder a graddfa.

3. BYRFYFYRIO:

Rhowch eich hunain yn esgidiau'r dorf wrth iddynt wylio Louisa yn hedfan fyny fry nes iddi ddiflannu o'r golwg.

Perfformiwch olygfa ar y pryd rhwng aelodau o'r dorf wrth iddynt ymateb i'r digwyddiadau:

- Beth maen nhw'n gweld?
- Sut maen nhw'n teimlo?
- Beth maen nhw'n meddwl ddigwyddith i'r ferch yn y balŵn?

GWEITHGAREDD 5

DARLLEN GWERTHUSO

Yn dilyn digwyddiadau'r 21ain o Orffennaf 1896, cafwyd llawer o adroddiadau am y stori yn y papurau newydd. Dibynnai'r newyddiadurwyr yn helaeth ar dystiolaeth llygad-dystion i lunio darlun o'r hyn a ddigwyddodd i Louisa ar y diwrnod tyngedfennol hwnnw. Fodd bynnag, roedd yr adroddiadau yma yn amrywio'n fawr, a chodwyd nifer o gwestiynau ynghylch eu dibynadwyedd.

Darllenwch y disgrifiad llygad-dyst canlynol o hediad Louisa:

"Roeddwn yn sefyll o flaen adeilad y Pierhead yn Nociau Biwt pan welais i hi'n neidio o'r balŵn. Roedd cloc yr adeilad yn dangos chwarter i wyth gyda'r nos. Roedd gwynt wedi codi heb os, gan fod y baneri ar y llongau yn chwifio. Pan agorodd y parasiwt, dechreuodd y ferch ddisgyn yn araf, ond roedd rhywbeth i'w weld o'i le. Credaf fod y gwynt wedi ei gwthio oddi ar ei chwrs.

Pan sylweddolais ei bod hi'n mynd allan tuag at y môr, tynnais ysbienddrych o'm bag. Mae'r ysbienddrych yn offeryn i weld pethau sydd ymhell i ffwrdd, ac rwy'n defnyddio fy un i yn aml er gwaethaf eu hansawdd gwael.

Syrthiodd hi i'r dŵr ar ei chefn, ac roedd sblash enfawr. Edrychai fel petai hi tua 300 neu 400 llath o'r lan, ond mae'n anodd dweud gan fy mod i gryn bellter i ffwrdd. Ar ôl ychydig eiliadau, diflannodd hi o dan y dŵr gyda'r parasiwt, ac ni allwn weld unrhyw gychod yn ddigon agos i'w hachub. Mae'n ddrwg gennyf ddweud, yn fy marn i, na achubwyd y ferch anffodus gan ei bod hi'n dechrau tywyllu ac roedd y môr braidd yn arw.

Digwyddodd hyn oll yng Nghaerdydd ar yr 21ain o Orffennaf. Deuthum i ddweud hyn wrthych oherwydd hoffwn weld fy ngeiriau wedi'u hargraffu yn y papur newydd."

1. Gan ddefnyddio'r colofnau isod, ydych chi'n gallu gwahaniaethu rhwng beth sy'n ffaith a beth sy'n farn personol?

FFAITH	BARN	DDIM YN SIŴR

2. Pa mor ddibynadwy yw'r llygad-dyst hwn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

GWEITHGAREDD 6

YMCHWILIO
TRAFOD
MYFYRIO

Ynghyd â Louisa Maud Evans, mae Balloon Girl yn cyflwyno tair menyw go iawn arall o hanes. Yn y ddrama, maent yn rhan o grŵp ffuglennol o'r enw 'The Navigators', ond yn eu bywydau go iawn, roeddent yn arloeswyr a gyflawnodd bethau go arbennig.



Sophie Blanchard
(1778–1819)



Amelia Earhart
(1897–1937)



Judith Resnik
(1949–1986)

1. Gan ddefnyddio'r adnoddau ymchwil sydd ar gael i chi (tabled, gliniadur ac ati), dewiswch un o'r menywod hyn o'r gorffennol a dysgwch fwy amdani.

- Pwy oedd hi?
- Beth wnaeth hi?
- Sut y caiff ei chofio?

2. Rhannwch y wybodaeth rydych wedi'i ddysgu gyda'r dosbarth, ac yna trafodwch y canlynol:

– Pa debygrwydd sydd rhwng bywydau a chyflawniadau Sophie Blanchard, Amelia Earhart a Judith Resnik?
– Sut mae eu straeon yn cymharu â stori Louisa Maud Evans?






Os cawsoch eich ysbrydoli gan y menywod hyn o'r gorffennol, efallai yr hoffech fyfyrio ar eu bywydau mewn ffordd greadigol. Ysgrifennwch gerdd neu stori fer, darluniwch gartŵn stribed, neu crëwch waith celf.



GWEITHGAREDD 7

YSGRIFENNU MYFYRIO

Yn dilyn marwolaeth Louisa Maud Evans, daeth pobl Caerdydd ynghyd i godi arian ar gyfer angladd a chofeb i'w hanrhydeddu a'i chofio. Claddwyd hi ym Mynwent Cathays, ac ar waelod ei charreg fedd mae cerdd:



"Requiescat in Pace."

BRAVE WOMAN, YET IN YEARS A CHILD,
DARK DEATH CLOSED HERE THY HEAVENWARD FLIGHT
GOD GRANT THEE, PURE AND UNDEFILED,
TO REACH AT LAST THE LIGHT OF LIGHT.

C.T.W.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i ddysgu am Louisa, ysgrifennwch gerdd i adrodd ei stori a rhannu ei gwaddol. (Cofiwch, mae rhaglen ddogfen fer ar gael i'w gwylio yma, neu prociwch eich cof gyda Gweithgaredd 1.)

Efallai yr hoffech ddefnyddio ffurf cerdd acrostig, lle mae llythyren gyntaf pob llinell yn sillafu 'Louisa' neu 'Balloon Girl' i lawr y dudalen.

L

O

U

I

S

A

M

A

U

D

E

V

A

N

S

B

A

L

L

O

O

N

G

I

R

L

GWEITHGAREDD 8

TRAFOD MYFYRIO

Mae cymeriad Thora Gronberg yn Balloon Girl wedi'i hysbrydoli gan yr actifydd o Sweden, Greta Thunberg. Mae hi'n enwog am ymgyrchu dros faterion amgylcheddol a chymdeithasol.

> "I have learned that you are never too small to make a difference."
>
> GRETA THUNBERG



Mewn grwpiau neu fel dosbarth, trafodwch ac ystyriwch rai neu bob un o'r testunau sgwrs isod:

- Beth ydych chi'n meddwl sydd angen newid yn y byd?
- Sut fyddech chi'n mynd ati i wneud y newid hwnnw?
- Beth ydych chi'n meddwl bydd yn wahanol yn y dyfodol o'i gymharu â heddiw?
- Pa fath o ddyfodol hoffech chi ei weld?